Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Adroddiad (3) 11-08 y Pwyllgor "Y Senedd"

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r pedwar o argymhellion yn yr adroddiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gyfrifol amdanynt.

Argymhellion

1 **Un o'r rhesymau dros yr oedi wrth orffen y Senedd, a'r costau uwch dilynol, oedd yr oedi wrth gaffael Merlin. Argymhellwn, mewn perthynas â phrosiectau caffael mawr o'r fath, fod y fanyleb yn ddigon manwl – o ran systemau integredig, cyfleusterau a'r gofynion o ran gofod – er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wneud rhagor o newidiadau ac oedi ôl-gontract.**

Derbyniwyd. Mae'r dull gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddefnyddio ar gyfer caffael prosiectau cyfalaf mawr yn parhau i esblygu, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o brofiad blaenorol. Yn achos prosiectau adeiladu swyddfeydd LICC yn Aberystwyth ac yng Nghyffordd Llandudno mae Tîm y Prosiect wedi ymgysylltu yn gynnar iawn yn y broses â'n darparwyr TGCh er mwyn datblygu'r gofynion a'r fanyleb strategol ar gyfer ystafelloedd gweinydd, pibellau, ceblau etc yn ogystal ag ar gyfer gofynion dylunio manylach o ran darparu cyfleusterau TGCh yn yr adeiladau.

4 **O ganlyniad i gymhlethdodau'r prosiect a'r amgylchiadau a wynebwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, sicrhawyd y gellir nodi nifer o wersi a'u cymhwyso at brosiectau adeiladu yn y sector cyhoeddus a'r broses o reoli prosiectau caffael mawr o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ffurfioli'r gwersi a ddysgwyd a'u cynnwys yng ngweithdrefnau gweithdrefnol y sefydliad.**

Derbyniwyd. Mae'r hyn a ddysgwyd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Broadway Malyan. Mae pwysigrwydd cael trefniadau rheoli prosiect a dirprwyo clir yn flaenoriaeth i brosiectau cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru a deallir yn iawn yr angen am ddewis y math iawn o gontract er mwyn cael y canlyniadau a ddymunir. Fel Cyfarwyddwr y Rhaglen Adeiladu mae Richard Wilson yn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd. Caiff tri phrif brosiect cyfalaf LICC sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd eu rheoli gan ddefnyddio'r fethodoleg o ran yr arferion gorau ar gyfer rheoli prosiectau a mecanweithiau cyflwyno; caiff yr hyn a ddysgwyd trwy'r prosiect Senedd ei roi ar waith. Yn ogystal â hynny, tynnir sylw Byrddau'r Prosiect at adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac at rai y Pwyllgor Archwilio ei hun.

5 **Hefyd, ac ar sail y profiadau wrth gaffael y Senedd a'r adeiladau sy'n gysylltiedig â'r strategaeth adleoli, dylai Llywodraeth y Cynulliad ledaenu canllawiau, sy'n seiliedig ar fenter Achieving Excellence in Construction Swyddfa Masnach y Llywodraeth, y gellir eu defnyddio gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn arbennig, dylai Llywodraeth y Cynulliad**

ledaenu'r defnydd o brosesau arfer da megis:

- **peirianneg gwerth;**
- **costau oes gyfan;**
- **methodoleg rheoli prosiect Prince 2;**
- **creu timau prosiect sydd â'r cymysgedd cywir o sgiliau a phersonoliaethau;**
- **defnyddio contractau caffael priodol.**

Derbyniwyd. Dosberthir y cyfarwyddyd ar yr hyn a ddysgwyd trwy amryw gyfryngau. Mae Gwerth Cymru, sy'n gyfrifol am hybu arferion caffael da ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'r hyn a ddysgwyd trwy'r Senedd ac mae'n cyfeirio ato'n aml yn ei waith. Mae'r Is-adran Ystadau a Phrosiectau, sy'n rhan o Werth Cymru, yn gweithio ar hyn o bryd ar Borthol Rhyngrwyd sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd ynghylch yr Arferion Gorau ym maes Adeiladu/cyhoeddiadau Cynghori. Bydd yn ymgorffori'r holl argymhellion y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad y Pwyllgor Archwilio a'r bwriad yw i'r porthol rhyngrwyd gael ei roi ar waith erbyn 31 Mawrth 2009. Yn ychwanegol at hynny, mae Richard Wilson hefyd yn Gadeirydd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru ac mae'r fforwm hwn yn caniatáu i'r hyn a ddysgwyd gael ei ledaenu i amrywiaeth eang o sefydliadau.

6 **Roedd ail gam y prosiect Senedd yn llwyddiannus yn gyffredinol - cyrhaeddiad nodedig am brosiect mor fawr a chymhleth yn y sector cyhoeddus. Mae'n hanfodol y caiff y profiadau gwerthfawr a gafwyd trwy'r prosiect Senedd eu defnyddio ar gyfer prosiectau adeiladu eraill y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu rheoli o dan ei strategaeth adleoli. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi nodyn i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd mis Rhagfyr 2008, gan nodi sut y caiff yr hyn a ddysgwyd trwy'r prosiect Senedd ei ddefnyddio fel rhan o brosiectau adeiladu eraill y mae'n eu rheoli.**

Derbyniwyd – Caiff nodyn ei baratoi a'i anfon at y Pwyllgor erbyn diwedd mis Chwefror 2009.